

## Cylchlythyr demograffeg Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021

### Cyfrifiad 2021

Bydd Cyfrifiad 2021 yn cael ei gynnal ddydd Sul 21 Mawrth yng Nghymru.

Awdurdod Ystadegau'r DU a'i swyddfa weithredol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sy'n gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda ONS ar bob agwedd ar y cyfrifiad yng Nghymru.

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) ar Gyfrifiad 2021 ddydd Gwener 12 Chwefror, i gyd-fynd â lansio ymgyrch gyhoedduswydd Cyfrifiad 2021.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cyfrifiad, ewch i wefan [Cyfrifiad 2021](#). Gallwch hefyd ddilyn Cyfrifiad 2021 ar [Twitter](#), [Facebook](#), [Instagram](#) a [LinkedIn](#).

Mae ONS hefyd wrthi'n recriwtio swyddogion maes y cyfrifiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Swyddi'r Cyfrifiad](#).

### Ystadegau'r gofrestr etholiadol, Mawrth 2020

Fel arfer, bydd gwybodaeth ar gyfer y gofrestr etholiadol yn cael ei chasglu ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Fodd bynnag, cafodd y casgliad hwn o ystadegau etholiadol ei lunio ar 2 Mawrth 2020 i gefnogi'r arolwg o Ffiniau Etholaethol Senedd y DU a fydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2023.

Cyhoeddwyd datganiad [Ystadegau Etholiadol ar gyfer y DU: Mawrth 2020](#) gan ONS ddydd Mawrth 5 Ionawr. Mae'n rhoi data ar nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau seneddol a llywodraeth leol fel y'u cofnodwyd ar y gofrestr etholiadol ar 2 Mawrth 2020 (ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Cyfanswm nifer etholwyr Senedd y DU yng Nghymru yw 2,322,700, cynnydd bach o 0.4% rhwng 1 Rhagfyr 2019 a 2 Mawrth 2020. Mae'r cynnydd hwn, o'i gymharu â mis Rhagfyr 2019, yn adlewyrchu'r cynnydd cyfan yn sgil yr Etholiad Cyffredinol diweddaraf.

Cyfanswm nifer yr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru yw 2,358,100, cynnydd bach o 0.4% rhwng 1 Rhagfyr 2019 a 2 Mawrth 2020.

Cyfanswm nifer cofrestrïadau etholiadol Senedd y DU ym mis Mawrth 2020 oedd yr uchaf ar gofnod, sef 47,558,400, cynnydd o 483,600 (1.0%) o'i gymharu â Rhagfyr 2019.

## **Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ardaloedd cynnyrch a nodweddion etholiadol, iechyd ac eraill ardaloedd daearyddol, Cymru a Lloegr: canol 2019**

Ar 9 Medi 2020, cyhoeddodd ONS amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ardaloedd cynnyrch a nodweddion etholiadol, iechyd ac eraill ardaloedd daearyddol ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer canol 2019.

Mae [amcangyfrifon poblogaeth ardal fach](#) ac [amcangyfrifon poblogaeth parciau cenedlaethol](#) ar gyfer Cymru wedi'u cyhoeddi ar wefan StatsCymru.

## **Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol: adborth gan ddefnyddwyr**

Rhwng 15 Hydref a 12 Tachwedd 2020, gwahoddodd ONS ddefnyddwyr i roi adborth ar sut y gallant fynd ati i gyhoeddi'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol nesaf a phryd y dylid gwneud hynny.

Ar 17 Rhagfyr, cyhoeddodd [ONS ddiweddariad i'r ymarfer ymgysylltu](#). Cafwyd cyfanswm o 65 o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â ddefnyddwyr o bob rhan o'r DU gan gynnwys pedwar o Gymru.

Mae ONS yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ddechrau 2021.

## **Y Gymraeg**

Rhwng 14 Medi a 9 Hydref 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o grwpiau cymunedol Cymraeg yng Nghymru, gyda'r nod o ddeall effaith COVID-19 ar eu gweithgareddau ers y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020. Cyhoeddwyd [canfyddiadau'r arolwg](#) ar wefan Llywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr.

Ddydd Mawrth 12 Ionawr, cyhoeddwyd [canlyniadau'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ar y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020](#). Oherwydd newid yn y ffordd y mae'r arolwg yn cael ei gynnal ers mis Mawrth 2020 (dros y ffôn yn unig erbyn hyn), mae ONS wedi canfod bod math ychydig yn wahanol o ymatebydd yn cymryd rhan yn yr arolwg. Felly, maent wedi newid y dull a ddefnyddiant ar gyfer pwysoli data'r arolwg i gyfrif am hyn, ac wedi diwygio amcangyfrifon yr arolwg ar gyfer y ddau chwarter blaenorol, [mis Gorffennaf 2019 i fis Mehefin 2020](#) a [mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020](#).

## **Manylion cyswilt**

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: [ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru)